# Adroddiad Cwrs. Rhywogaethau Rhynglanwol Arfordirol; 26ain Mehefin 2016, Gardd Fotaneg Treborth




Gyda rhagolygon am law, cyrhaeddodd 12 o gofnodwyr brwd Erddi Botaneg Treborth fore Sul diwethaf i fynychu cwrs Adnabod Rhywogaethau Rhynglanwol Arfordirol.

Biolegydd Môr gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Paul Brazier, oedd yn arwain y cwrs.

Cyn i'r llanw ddod i mewn, fe aethon ni i lawr i'r arfordir o dan Bont Britannia ar ein hunion. Rholiwyd cerrig a chwiliwyd yn y gwymon am amrywiaeth o fywyd y môr diddorol.

Darganfuwyd crancod porslen yn glynu'n dynn wrth y creigiau yng nghwmni Llyfrothod, Sianïaid a rhywogaethau amrywiol o wichiaid. Yn y rhwydi gwelwyd berdys a dau fath o Slefrod Cribog o'r dŵr dyfnach yn y culfor.

Aethom yn ôl i Dreborth gyda rhywfaint o'r creaduriaid roedden ni wedi'u dal a chawsom sgwrs gan Paul ar gynefinoedd a rhywogaethau rhynglanwol dros ginio. Treuliwyd gweddill y diwrnod yn archwilio'r samplau byw yn fanylach gyda microsgopau ac allweddi. Cafwyd golygfeydd rhyfeddol o frigerau Slefrod Cribog yn ysgwyd a llyngyr lledog morol aml-lygadog. Daeth y cwrs pleserus yma i ben tua 16:00 a dychwelwyd y creaduriaid i Afon Menai wedyn.









